**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 13-01 (Cofn drafft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **31 Hydref 01** |
| **Amser** | **2.00-5.30pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Alison Halford | Delyn |
| Rhodri Morgan (fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Cyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd. |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Hobbs | ICM |
| Gareth Edwards | EPD5 |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Graham Hawker | Prif Weithredwr y WDA |

| | |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Strategaeth y WDA |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Christine Chapman.

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mike German i'r Pwyllgor fel aelod y Democratiaid Rhyddfrydol. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther a Dafydd Wigley.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog.**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gan roi diweddariad byr ar lafar, yr atodir copi ohono i'w adroddiad ysgrifenedig.
2. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr erthyglau diweddar yn y wasg am yr estyn am gyllid Amcan 1. Cadarnhaodd y swyddogion fod yn rhaid estyn am £175.49 miliwn erbyn 31 Rhagfyr 2002. Estynnwyd am £79.02 miliwn eisoes a gwnaethpwyd taliadau gwerth £28.5 miliwn. Mae taliad o £21 miliwn ar fin cael ei wneud mewn perthynas â Cyllid Cymru gan wneud cyfanswm o £128.52 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli 73% o'r targed ac mae 14 mis yn aros o hyd. Awgrymodd Aelod y dylai'r Cronfeydd Strwythurol gael eu harchwilio'n ofalus yn eu cyfanrwydd gan un Pwyllgor, sef Pwyllgor Materion Ewropeaidd o bosibl.
3. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch DJW construction dywedodd y Gweinidog fod sïon yn cylchredeg mai rhan o'r rheswm iddo fynd i law'r derbynnydd oedd methiant y Cynulliad i ymateb i geisiadau cynllunio am ffermydd gwynt. Cadarnhaodd mai dim ond rhan fach o fusnes y cwmni oedd adeiladu ffermydd gwynt ac na wyddai am y rhesymau dros gau'r cwmni. Ychwanegodd fod yn rhaid i unrhyw gwmni ar restr tendro'r Cynulliad feddu ar y bondiau priodol.
4. Ar fater Bae Caerdydd mynegwyd anfodlonrwydd gan rai Aelodau fod adroddiad byr wedi ei atodi i adroddiad y Gweinidog a galwasant am ddadl lawnach ar y pwnc. Gofynnodd Aelod hefyd am wybodaeth bellach am effaith TAW ar y ffigurau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu trafodaeth lawnach ar y pwnc fel eitem sylweddol**. [Cam Gweithredu: Y Clerc]**
5. Ar bwnc y prosiect datblygu a gyhoeddwyd ar gyfer canol dinas Abertawe cadarnhaodd y Gweinidog mai prosiect y WDA oedd hwn ac, er bod yr amserlen yn ymddangos yn hir, yr oedd yn ddatblygiad cymhleth ac yr oedd yr amserlen yn

realistig. Cadarnhaodd y WDA y byddai’r prosiect yn cychwyn, gan gymryd y rhoddir caniatâd cynllunio, yn unol â’r amserlen amcanestynedig gyda’r rheolaeth brosiect briodol ar waith.

6. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad manylach i’r Pwyllgor ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd mewn perthynas ag amrywiadau cyllidol. Yn benodol, gofynnodd yr Aelodau am fanylion ar y manteision posibl i fusnes oddi wrth gredydau treth Ymchwil a Datblygu a chynlluniau gofal plant. Cytunodd y Gweinidog hefyd i gylchredeg adroddiad Price Waterhouse Coopers i Aelodau’r Pwyllgor. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
7. Ymhellach i’r cyhoeddiad ynghylch y Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Ystod Lydan, cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i ymhelaethu ar fanylion y cyllid a gâi eu darparu, beth bynnag, fel rhan o ddatganiad yr e-Weinidog y diwrnod canlynol. Yn benodol, yr oedd rhai Aelodau yn bryderus mai dim ond £8.5 miliwn a oedd wedi ei glustnodi i ddarparu gwasanaethau ystod lydan a bod y gweddill ar gael ar gyfer offer amlgyfrwng mewn ysgolion cynradd**.**
   **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
8. Mynegwyd pryder gan un Aelod fod cynllun adfer Corus a’r cynllun adfer Gwledig wedi eu cyllido o hyblygrwydd diwedd blwyddyn a bod hyn i bob pwrpas yn dargyfeirio arian y dylid bod wedi ei wario mewn ardaloedd eraill. Nid oedd ardaloedd fel Caerffili yn derbyn unrhyw gymorth o dan y cynlluniau ond yr oedd yn cydffinio â Chasnewydd a Glyn Ebwy ac nid oedd y golled gronnol ddiweddar o ymron i 3000 o swyddi ym mwrdeistref Caerffili wedi denu unrhyw gymorth ychwanegol. Atebodd y Gweinidog ei fod i gyfarfod â Chyngor Bwrdeistref Caerffili ar gais y cyngor yn Rhagfyr. Ychwanegodd hefyd fod enillion a cholledion swyddi yn nodwedd o bob economi. Gwrthododd yr honiad bod y defnydd o danwariannau ar gyfer cynlluniau adfer mawr yn dargyfeirio cyllid oddi wrth ardaloedd eraill.
9. Dywedodd Aelod y dylid ystyried y Cynllun Gweithredu Dur yn fodel yng Nghymru ac y dylai fod ar gael i Aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd.
   **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

**Eitem 3: Adroddiad hanner blynyddol y WDA.**

1. Disgrifiodd Graham Hawker y cynnydd a wnaethpwyd hyd hynny gan y WDA a thynnodd sylw at y ffaith eu bod wedi cynnwys targedau gweithredol yn eu hadroddiad am y tro cyntaf. Dywedodd mai’r her iddynt yn awr, er bod rhai targedau eithaf uchelgeisiol wedi eu gosod, oedd cynyddu nifer y cychwyniadau busnes newydd ac yr oedd amryw o fentrau ar waith i gynorthwyo â hyn.
2. Yr oedd yr Aelodau’n fodlon ar gynnwys yr adroddiad ond yr oeddent yn bryderus bod rhai o’r amcanestyniadau ar gyfer ail chwe mis y flwyddyn yn fwy o lawer na’r gwir berfformiad a gyflawnwyd hyd yn hyn. Gwnaethpwyd y pwynt y dylid

archwilio'r weithdrefn ar gyfer pennu'r targedau.

3. Mynegwyd dymuniad gan yr Aelodau i weld defnyddio'r meini prawf wrth bennu'r swyddi a ddiogelwyd ac yr oeddent yn cwestiynu'r sylw yn yr adroddiad y gellid priodoli'r diffyg yn y cychwyniadau busnes yn rhannol i'r cychwyn hwyr ar nifer o brosiectau Amcan 1, gan fod y nifer o gychwyniadau y tu allan i ardaloedd Amcan 1 yn is byth.
4. Dywedodd y WDA, mewn perthynas â chychwyniadau busnes, y byddent yn disgwyl i'r cyflawniadau fod yn uwch yn ail ran y flwyddyn oherwydd yr oedd y cynlluniau Amcan 1 a ohiriwyd bellach ar waith. Er hynny, yr oeddent yn derbyn bod angen mwy o ddadansoddi er mwyn dyfeisio dull mwy gwyddonol o bennu targedau.
5. Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau am yr adolygiad o ddarpariaeth ystod lydan, dywedodd y WDA fod yr astudiaeth wedi dangos yr angen i symbylu galw, annog cystadlu ac felly dod â'r prisiau i lawr. Byddai'r defnydd o'r ystod lydan mewn ysgolion yn rhan o'r galw hwnnw. Gwnaethpwyd y pwynt hefyd, er bod y costau'n ymwneud â phrisiau ledled y DU, eu bod hefyd yn gysylltiedig â phellter ac felly yr oedd eu heffaith yn fwy sylweddol mewn ardal fel Cymru.
6. Cytunodd y WDA, mewn perthynas â buddsoddi tramor, fod y perfformiad wedi bod yn well o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU yn y 1980au a'r 1990au. Cytunasant i ddarparu mwy o fanylion yn yr adroddiad nesaf a fydd yn manylu ar y rhaniad rhwng buddsoddiad newydd o dramor ac ehangiad y cwmnïau tramor presennol. Ychwanegasant fod Cymru, fel brand, yn cael ei gweld yn gartref i weithgynhyrchu ac mai'r hyn yr oedd ei angen oedd symudiad tuag at economi sydd yn seiliedig ar wybodaeth.

**Eitem 4: Adolygiad o Gymorth Busnes – adroddiad y Gweinidog**

1. Cyflwynodd Graham Hawker y papur a chyfeiriodd at y trafodaethau helaeth a gawsai'r Awdurdod â'r cyrff eraill a oedd yn ymwneud â darparu cymorth busnes. Eglurai'r papur yr hyn a wneid wrth ddatblygu'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yr oedd yn rhaid eu sefydlu a'u rhoi ar waith erbyn 1 Ebrill. Dywedodd iddo gael ei galonogi gan y ffaith bod bwrdd Cyswllt Busnes wedi eu croesawu. Nododd fod ychydig o bwyntiau manwl yr oedd angen eu datrys o hyd, o ystyried yr amserlen gyfyng.
2. Nododd yr Aelodau nad oedd strwythur rhanbarthol/daearyddol y gwasanaethau wedi ei ddiffinio eto a phwysleisiasant ei bod yn bwysig i hynny adlewyrchu ardaloedd economaidd gwirioneddol. Tra oedd pedair prif ardal 'fforwm economaidd', yr oedd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o economïau 'lleol' gwahanol. Yr oedd gwahaniaethau diwylliannol hefyd i'w cydnabod ac yr oedd yn bwysig i fusnesau bach gael eu cynorthwyo gan rai a oedd yn deall y sefyllfa leol. Anogasant y WDA i sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau yn cydnabod hyn drwy eu cyflenwi'n lleol lle bynnag y byddai modd. Dywedodd Mr Hawker ei bod yn sicr yn nod ganddynt ddarparu gwasanaethau â phersbectif lleol, yn amodol ar

gost ac ystyriaethau ymarferol.

3. Cyfeiriwyd at ymarfer mapio'r WDA a'r anawsterau yr oedd y Pwyllgor wedi eu profi wrth geisio mapio gwasanaethau yn ystod ei Adolygiad. Mynegwyd pryder ynghylch y pwysigrwydd o gydnabod rôl y sector preifat. Dywedodd Graham Hawker mai'r cam cyntaf oedd canfod gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau. Amcan y WDA oedd gwneud defnydd llawn o'r sector preifat ar yr amod ei fod yn cyflawni'r gofynion o ran pris ac ansawdd.
4. Yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynegi siom nad oedd y WDA wedi sefydlu gweithgor i baratoi cynlluniau ar gyfer strwythur y trefniadau newydd i Cyswllt Busnes. Dywedodd Graham Hawker fod ymgynghoriad llawn wedi bod â'r cyrff dan sylw ond ei bod yn well gan y WDA wneud hyn drwy gyfres o gyfarfodydd dwyochrog.
5. Ar gwestiwn atebolrwydd am gyflenwi'r gwasanaethau, nododd Mr Hawker fod yr Awdurdod yn adrodd yn ffurfiol i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Byddai angen cytuno ar dargedau, a.y.b., ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cymorth busnes.
6. Nododd yr Aelodau y cynnig i beidio â sefydlu 'Ombwdsmon' ar gyfer busnes. Derbyniasant fod llawer o'r probemau y byddai 'Ombwdsmon' yn ymdrin â hwy, yn codi o ganlyniad i ennyn disgwyliadau afresymol mewn busnesau ar ddechrau eu trafodaethau ag asiantaethau cymorth. Yr oedd rhwystredigaeth yn codi, ar ôl rhoi llawer iawn o amser ac ymdrech, os na chyflawnid y disgwyliadau. Yr oeddent yn croesawu'r 'daliadau arfer da' a gynigid ym mharagraff 11 o'r papur ac anogasant y dylai'r rhain hefyd gynnwys y cyfnod y gwneir penderfyniad oddi mewn iddo. Ychwanegodd Graham Hawker y dylai'r cysondeb fod yn well gan y byddai'r WDA yn cydlynu holl ystod y gwasanaethau.
7. Bu trafodaeth fyr ar gynllun grant menter newydd y Cynulliad. Nododd yr Aelodau mor bwysig oedd sicrhau bod y WDA wedi ei hysbysu'n llawn amdano er mwyn sicrhau ei weithredu'n gydlynol â ffurfiau eraill ar gymorth. Nododd yr Aelodau hefyd mor bwysig oedd cynnal dialog â busnes er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid y cynllun yn ymwneud â diffinio'r mecanweithiau cyflenwi.
8. Yn amodol ar y sylwadau hyn, nododd a chadarnhaodd y Pwyllgor y cynigion yn y papur.

**Eitem 5: Drafft terfynol y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol.**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y strategaeth datblygu economaidd ddrafft 'Cymru ar ei Hennill' a dywedodd ei fod wedi dod at y drafft terfynol hwn ar gyfer ymgynghori gyda meddwl agored. Fe'i cynhyrchwyd ar y cyd â'r grwp gorchwyl a gorffen ac yr oedd yn cydrhedeg hefyd â'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a ddatblygid gan y Gweinidog dros Addysg. Dywedodd fod angen gweithio'n agos gydag Adrannau eraill ond bod rhaid cael diffiniad clir o Ddatblygu Economaidd mewn perthynas â'r strategaeth economaidd ac er bod rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn dymuno cael cylch gwaith ehangach yr oedd yn rhaid tynnu'r llinell yn

rhywle. Atgoffaodd yr Aelodau mai'r nod oedd haneru'r bwlch ffyniant rhwng Cymru a gweddill y DU, o'i fesur yn ôl y cynnyrch mewnwladol crynswth y pen, dros y 10 mlynedd nesaf.

2. Gyda golwg ar dargedau rhanbarthol, dywedodd fod galwadau am amryw o strategaethau gwahanol, yn amrywio o fabwysiadu un i 22 o ranbarthau. Credai fod hyn yn fater dilys ond yr oedd wedi penderfynu cadw dau ranbarth: ardaloedd oddi mewn i Amcan 1, ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Amcan 1. Yr oedd angen hynny dros y saith mlynedd cyntaf er mwyn rhoi ystyriaeth i'r manteision a gynigid gan Amcan 1.
3. Yn y drafodaeth dywedodd sawl Aelod fod diffyg targedau gwirioneddol mewn perthynas â thrafnidiaeth yn yr adroddiad. Dywedodd y Gweinidog, er bod trafnidiaeth yn agwedd bwysig, na allai'r strategaeth ymdrin yn fanwl â materion trafnidiaeth – byddid yn rhoi sylw i hynny yn y Fframwaith Trafnidiaeth. Dywedodd y swyddogion ei bod yn anodd iawn canfod targedau ystyrlon mewn perthynas â thrafnidiaeth ond y byddent yn ei hystyried ymhellach. Ychwanegodd y Gweinidog fod trafnidiaeth yn un ysgogydd allweddol mewn datblygu economaidd, ond nad oedd o reidrwydd yn warant o lwyddiant economaidd.
4. Yr oedd llawer o'r Aelodau yn teimlo bod diffyg manylder yn yr adroddiad o hyd mewn perthynas â pholisïau, adnoddau a thargedau realistig. Atebodd y Gweinidog mai amhriodol mewn strategaeth 10 mlynedd oedd mynd ymhellach na lefel benodol o fanylder. Yr oedd llawer o ffactorau allanol a oedd yn anhysbys. Er enghraifft, gallai effaith y bunt yn erbyn yr ewro olygu y dylid dargyfeirio'r economi oddi wrth weithgynhyrchu tuag at y diwydiannau gwasanaeth neu gallai olygu mai gweithgynhyrchu oedd y cyfeiriad iawn i'w ddilyn.
5. Yr oedd rhai Aelodau yn teimlo bod barn nifer o bartneriaid pwysig iawn, yn enwedig Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, heb dderbyn sylw priodol eto. Teimlent y gallai hyn effeithio ar waith partneriaeth yn y dyfodol.
6. Dylai datblygu cynaliadwy fod yn thema gyfoethocach o lawer ac atgoffasant y Gweinidog fod Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi gofyn am gynnwys asiantaethau yn y sector amgylchedd.
7. Mynegwyd pryder nad oedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn unigryw i Gymru neu'n rhoi mwy o sylw i fentrau a allai fod yn neilltuol i Gymru. Gan fod llawer o ffactorau mewn datblygu economaidd y tu hwnt i ddylanwad y Cynulliad teimlwyd nad oedd yr adroddiad wedi rhoi sylw i'r materion mewn cyd-destun Cymreig.
8. Gwnaethpwyd y pwynt y byddai ailddosbarthu gwariant cyhoeddus yn cyfrannu'n fawr at bontio'r bwlch yn y diffyg cynnyrch mewnwladol crynswth a galwodd Aelod am i'r Llywodraeth bwyso dros ddiwygio fformiwla Barnett.
9. Tynnodd y swyddogion sylw at feysydd yn yr adroddiad a oedd yn dangos rhai o'r prosiectau unigryw a oedd gan Gymru eisoes a dywedasant fod y cyswllt rhwng datblygu economaidd a sgiliau yn rhywbeth nad oedd wedi ei ddyblygu mewn mannau eraill. Ychwanegasant mai un neges bwysig o astudiaeth ddiweddar gan

y Sefydliad Materion Cymreig o ranbarthau llwyddiannus ledled y byd oedd ei bod yn ymddangos mai cyfeiriad clir a gweithredu rhagorol oedd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu. Yr oedd ‘Cymru ar ei Hennill’ yn seiliedig ar y gosodiad hwn a chyfraniad asiantaethau o’r ansawdd gorau fel ELWa a’r WDA.

10. Terfynodd y Gweinidog drwy ddweud y dylid diffinio’r strategaeth fel un a oedd yn ceisio gwario’n gallach yn hytrach na dim ond gwario mwy. Dywedodd ei fod yn teimlo y gellid cyflawni hyn drwy fod yn fwy strategol a nododd yr ailstrwythuro oddi mewn i’r WDA ac ELWa fel enghreifftiau o waith a gyflawnwyd eisoes er mwyn gweithredu’n fwy strategol. Os methai’r strategaeth â dangos canlyniadau, byddai angen ystyried mater adnoddau.
11. Dywedodd Aelod fod bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol ynddi’i hun yn golygu y gellid hyrwyddo newid mewn modd na fyddai wedi digwydd cynt. Yr oedd angen derbyn bod y ddogfen yn ddynamig ac y byddai’n newid dros amser.
12. Bu trafodaeth fyr wedyn ar bapur 5, ‘Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Economaidd’. Daeth y Cadeirydd i’r casgliad y dylid cario’r papur hwn ymlaen i’r cyfarfod nesaf oherwydd prinder yr amser a oedd ar ôl.

**Eitem 6: Trafodaeth derfynol ar flaenoriaethau cyllideb.**

1. Yr oedd yr Aelodau yn siomedig mai ychydig o sylw a roddwyd i’r dymuniad a fynegasant am gyfeirio cyllid ychwanegol i addysg. Pwysleisiasant mor bwysig oedd buddsoddi yn y sector hwn yn yr ymgyrch i gael economi yn seiliedig ar wybodaeth. Mynegwyd y farn bod angen i’r Pwyllgor Datblygu Economaidd gynnal trafodaethau â phwyllgorau eraill er mwyn ffurfio barn drawsbynciol ar flaenoriaethau cyllideb y Cynulliad. Er ei bod yn anymarferol gwneud hynny ar y cam presennol yn y broses gyllidebol, cytunodd y Gweinidog nad oedd modd ar hyn o bryd ddelio â materion trawsbynciol o’r math hwn a dywedodd y byddai’n ystyried y pwynt ymhellach.
2. Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd buddsoddi mewn telathrebu ystod lydan. Nid oeddent yn derbyn y ddadl y byddai prisiau is yn dod o ganlyniad i gynnydd yn y galw yn unig ac yr oeddent o’r farn bod angen buddsoddiad sector cyhoeddus ynddo. Nododd yr Aelodau fod arnynt angen mwy o eglurder ar y cyllid ar gyfer hynny yn y dyfodol.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

1. Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o’r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**